Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Chwarae Dyddiol Early Learners
13 Ffordd Dyserth
Rhyl
Sir Ddinbych
LL18 4DW

**Dyddiad yr arolygiad: Chwerfror 2012**

**gan**

**Mr W Williams**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Sefydlwyd cylch chwarae 'Early Learners' yn Chwefror 2008 ac mae wedi bod yn cyfarfod yn yr adeilad presennol am y tair blynedd ddiwethaf. Mae'n darparu addysg feithrin breifat ar gyfer plant tair blwydd oed. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn byw yn y Rhyl a'r ardaloedd oddi amgylch. Bernir nad yw'r ardal y daw'r plant ohoni yn ffyniannus nac yn ddifreintiedig yn gymdeithasol nac yn economaidd.

Mae plant o bob gallu a chefndir yn cael eu derbyn i'r lleoliad. Mae'r rhain yn cynnwys plant gydag anghenion dysgu ychwanegol neu y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Mae plant o gefndiroedd ethnig gwahanol hefyd yn mynychu'r lleoliad.

Darpara'r lleoliad bum sesiwn bore'r wythnos ar gyfer plant tair oed, er bod y nifer o sesiynau a fynychir gan blant unigol yn amrywio yn ôl dewis rhieni. Ar hyn o bryd, mae chwech o blant yn mynychu'r lleoliad ac mae pump ohonynt yn cael eu hariannu gan Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc Sir Ddinbych.

Cefnogir addysg y plant gan yr arweinydd, un ymarferydd llawn amser ac un rhan amser. Mae gan bob un ohonynt gymwysterau priodol i addysgu plant y blynyddoedd cynnar.

Mae'r lleoliad yn cyfarfod mewn tŷ wedi cael ei addasu mewn ardal breswyl. Mae tair ystafell ar y llawr cyntaf wedi cael eu neilltuo ar gyfer y plant meithrin.

Ar ôl cwblhau eu hamser yn y lleoliad, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn parhau â'u haddysg mewn ysgolion cynradd lleol.

Cafodd y lleoliad ei arolygu ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym Mehefin 2011. Hwn yw ei arolygiad cyntaf gan Estyn

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad cyfredol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- profiadau dysgu'n annog plant i wneud cynnydd da tuag at gyfarfod deilliannau'r Cyfnod Sylfaen;
- y ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd yn gydlynus ac wedi ei gwreiddio'n gadarn ym mhrofiadau'r plant i gyd;
- mae nifer o nodweddion da i'r addysgu;
- gofal, cefnogaeth ac arweiniad yn dda a phlant yn hapus yn y lleoliad; ac
- amrediad o weithgareddau partneriaeth yn gwneud cyfraniad da tuag at gyflawniad y plant a'u lles.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'n dda oherwydd bod:

- gan y lleoliad nodau, amcanion strategol, cynlluniau a pholisïau eglur sydd yn canolbwyntio ar gynnig darpariaeth o ansawdd dda;
- addysgu a dysgu yn cael eu rheoli'n dda;
- y gyfundrefn hunan arfarnu a sefydlwyd yn ddiweddar yn debygol o arwain at welliannau pellach; a'r
- lleoliad yn datblygu'n dda fel cymuned ddysgu.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach, mae angen i'r lleoliad:

A1 wella'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau meddwl, ymchwiliol a chreadigol plant;
A2 wella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad yr iaith Gymraeg;
A3 wneud gwell defnydd o wybodaeth asesu i gynllunio'r camau nesaf yn y dysgu; a
A4 datblygu gweithdrefnau hunan arfarnu ymhellach.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**
Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

**Safonau**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr Iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae ymarferwyr yn cydweithio'n dda i gynllunio profiadau dysgu sy'n addas ar gyfer anghenion a diddordebau'r plant. Mae'r profiadau'n eu hannog i ddysgu'n effeithiol a gwneud cynnydd da tuag at ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen. Mae amrywiaeth o brofiadau hyblyg ac adweithiol yn dal sylw bron pob plentyn yn llwyddiannus ac yn adeiladu'n systematig ar y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r medrau sydd ganddynt yn barod. Mae bron pob gweithgaredd yn cynnwys elfen addas o her a sialens ar gyfer plant o bob oed a gallu.

Mae'r cyfleoedd dysgu a ddarperir yn annog plant i ffurfio perthnasau cadarnhaol gydag eraill yn y lleoliad, gan gynnwys oedolion. Mae'r plant yn dangos parch a goddefgarwch tuag at bobl o gefndiroedd diwylliannol eraill. Mae cyfleoedd gwerthfawr yn cael eu darparu o dan do, yn yr awyr agored ac yn y gymuned leol er mwyn i blant ddod yn ddysgwyr annibynnol sy'n gallu arbrofi â phrofiadau newydd a dod yn hyderus fel archwilwyr yn eu hamgylchedd.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd a chyfathrebu a medrau allweddol eraill yn gydlynus ac wedi gwreiddio'n ddwfn ym mhrofiadau'r holl blant. Megis dechrau mae cynllunio manwl ar gyfer datblygu medrau meddwl, ymchwiliol a chreadigol plant.

Ychydig o gyfleoedd a ddarperir i annog plant i ddefnyddio'r iaith Gymraeg gymaint ag y bo modd yn eu dysgu ac mae hyn yn rhwystro eu cynnydd. Darperir profiadau o ansawdd da i hybu eu hymwybyddiaeth o draddodiadau a dathliadau o ddiwylliannau Cymru.

Mae plant yn ymwneud yn weithredol yn nod y lleoliad i weithredu'n gynaliadwy trwy gadw gwastraff i isafswm, arbed ynni ac ailgylchu papur. Trwy amrediad eang o weithgareddau llawn dychymyg, megis dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, mae dealltwriaeth y plant o'r byd mawr yn cael ei hybu'n effeithiol.

**Addysgu: Digonol**

Ar y cyfan, mae addysgu'n dda. Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o'r Cyfnod Sylfaen ac maent yn deall pwysigrwydd darparu cyfleoedd i blant ddysgu trwy chwarae a bod yn weithredol. Yn gyffredinol, mae profiadau dysgu'n cael eu haddasu'n dda i ateb gofynion yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai galluog a thalentog. Gŵyr ymarferwyr pryd y mae'n briodol i ymyrryd yn nysgu'r plant a gwnânt

hynny'n sensitif a medrus. Caiff unrhyw enghreifftiau o ymddygiad annerbyniol eu rheoli'n effeithiol. Mae cydbwysedd rhwng gweithgareddau o ddewis y plant a rhai o dan gyfarwyddyd ymarferydd. Gwneir defnydd dychmygus o amrywiaeth o adnoddau i apelio at ddiddordeb y plant a gwella eu dysgu. Mae ffocws eglur yn y gefnogaeth sy'n cael ei rhoi gan oedolion, a hyn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i ansawdd dysgu'r plant. Mae ymarferwyr ychwanegol yn gwneud cyfraniad gwerthfawr iawn i ddysgu'r plant a'u lles.

Er bod cynnydd a dysgu'r plant yn cael eu hasesu a'u tracio'n rheolaidd ar draws pob maes dysgu, ychydig o ddefnydd a wneir o'r wybodaeth i gynllunio camau nesaf y dysgu. Mae'r rhieni yn derbyn ffolder sy'n cynnwys samplau o gyflawniadau eu plant, ar ddiwedd y flwyddyn, ac mae'n rhoi amcan da iddynt o'r cynnydd a wnaed. Fodd bynnag, ychydig o gyfleoedd a ddarperir i rieni gyfrannu'n weithredol i asesiad eu plentyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan y lleoliad bolisïau a gweithdrefnau priodol ar gyfer hybu byw yn iach a lles plant. Mae plant yn cael eu hannog i fwyta byrbrydau iach yn yr ysgol, i ofalu am eu hylendid personol a chymryd rhan mewn gweithgareddau ymarfer corff.

Mae profiadau dysgu'n hybu datblygiad personol y plant yn effeithiol, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae teithiau natur i'r goedwig gyfagos yn cyfrannu'n dda tuag at ddatblygu cywreinrwydd plant a'u synnwyr o ryfeddod am y byd y maent yn byw ynddo. Caiff gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch at y gwir eu hybu'n gadarn. Dysgir plant i ddeall rheolau ymddygiad syml, megis rhannu teganau. Mae'r plant yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel yng nghwmni oedolion yn y lleoliad ac yn fodlon gofyn am gymorth a chefnogaeth.

Gŵyr ymarferwyr sut i ymateb yn briodol os oes sialensau'n codi mewn perthynas ag ymddygiad annerbyniol a diogelu. Mae gan y lleoliad bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu.

Mae gan blant ag anghenion dysgu ychwanegol fynediad llawn at bob maes dysgu. Mae'r arweinydd yn cyd-gysylltu'n agos â'r ysgol gynradd leol i sicrhau bod anghenion unigol plant yn cael eu cyfarfod tra ydynt yn y lleoliad. Ni fu unrhyw enghreifftiau o'r lleoliad yn ceisio cymorth gan asiantaethau arbenigol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle mae gan yr holl blant fynediad cyfartal at bob maes dysgu a gweithgaredd a ddarperir ar eu cyfer. Mae pwyslais cryf ar ddatblygu agweddau goddefgar a sicrhau bod plant a staff yn rhydd o ymyrraeth. Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr sydd â gwybodaeth ac arbenigaeth ddigonol i addysgu pob agwedd o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Llwydda ymarferwyr i greu amgylchedd symbylol lle gall pob plentyn fanteisio'n llawn ar y profiad dysgu a datblygu gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol.

Mae mwy na digon o adnoddau o ansawdd da ar gyfer pob maes dysgu a chânt eu cyfatebu'n ofalus i ddatblygiad a gofynion dysgu pob unigolyn. Caiff adnoddau y tu

mewn ac o'r tu allan eu defnyddio'n dda i wella'r cwricwlwm a chefnogi dysgu yn y dosbarth. Mae'r adeilad o ansawdd da, gan mwyaf, a chaiff ei ddefnyddio'n effeithiol gan ymarferwyr.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

O dan arweiniad yr arweinydd, mae gan y lleoliad nodau eglur, amcanion strategol, cynlluniau a pholisïau sy'n canolbwyntio ar roi darpariaeth o ansawdd dda sy'n cyfarfod ag anghenion y plant. Mae ymarferwyr yn ymgymryd â'u swyddogaethau a'u cyfrifoldebau yn gydwybodol, a chydweithiant yn effeithiol i sicrhau bod y Cyfnod Sylfaen yn cael ei weithredu'n llwyddiannus. Caiff polisïau a gweithdrefnau eu rhoi mewn grym yn gydwybodol. Mae'r lleoliad yn llwyddo i greu ethos cadarnhaol lle gall plant a staff deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Rhennir gwerthoedd cyffredin mewn perthynas â dysgu ac ymddygiad. Mae perthnasau gyda phlant a rhieni yn gadarnhaol ac yn cyfrannu'n dda tuag at eu hymdeimlad o berthyn i gymuned.

Mae addysgu a dysgu'n cael eu rheoli'n dda a gwneir defnydd effeithiol o amser ymarferwyr, eu harbenigedd a'u cryfderau. Er bod yna gyfundrefn briodol o arfarnu ymarferwyr, nid yw'r deilliannau'n arwain at amcanion cytunedig ar gyfer gwella. Mae gan ymarferwyr rôl weithredol yn y prosesau ac maent yn eu defnyddio'n effeithiol i adnabod eu hanghenion o safbwynt hyfforddiant a datblygiad.

Gydag arweiniad yr awdurdod lleol, mae'r arweinydd yn sicrhau bod disgwyliadau yn uchel a bod blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn cael eu hintegreiddio i raglen waith y lleoliad.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r gyfundrefn hunan arfarnu a sefydlwyd yn ddiweddar wedi galluogi'r lleoliad i adnabod ei gryfderau a meysydd i'w datblygu ac i ddefnyddio'r wybodaeth hon i greu gwelliannau yng nghynnydd a chyflawniad y plant. Cafodd hyn ei gynyddu'n sylweddol trwy archwiliad awdurdod lleol sydd wedi creu cyfle i'r lleoliad arfarnu ansawdd ei ddarpariaeth mewn cryn fanylder. Caiff holiaduron rheolaidd eu defnyddio'n effeithiol i ymgynghori â rhieni am eu barn ar waith y lleoliad.

Defnyddir gwybodaeth yn deillio o hunan arfarnu yn dda i flaenoriaethu materion y mae'r lleoliad yn dymuno eu gwella. Mae cynllunio ar gyfer gwella yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am gamau i'w cymryd, y lefel o gefnogaeth y bydd ei hangen, dyddiad cwblhau ac arfarniad o ddeilliannau. Er bod gweithdrefnau cyfredol yn effeithiol, megis dechrau y mae datblygu hunan arfarnu ac mae eto i gael effaith arwyddocaol ar y safonau a'r ddarpariaeth.

Mae'r lleoliad yn datblygu'n dda fel cymuned ddysgu. Mae diwylliant cynyddol o gydweithredu ac mae ymarferwyr yn agored iawn i gyngor a syniadau newydd. Maent yn rhannu gwybodaeth ac arfer dda gyda'r naill a'r llall ac maent yn fodlon rhoi cynnig ar ffyrdd gwahanol o weithio.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae amrediad o weithgareddau partneriaeth yn gwneud cyfraniad da at gyflawniad y plant a'u lles. Mae partneriaeth gynhyrchiol gyda'r ysgol gynradd leol ac mae trefniadau ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth asesu yn effeithiol. Caiff rhieni wybodaeth reolaidd am bob agwedd o waith y lleoliad. Gweithia ymarferwyr yn dda iawn gyda'i gilydd, rhannant wybodaeth am blant ac maent yn gwybod gyda phwy a pha bryd i gysylltu pan ac os oes angen cefnogaeth ychwanegol ar gyfer plant. Ffurfiwyd cysylltiadau cynhyrchiol gyda nifer o sefydliadau yn y gymuned leol ac mae'r rhain yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles plant. Mae ymweliadau, adroddiadau a chyngor proffesiynol cyson gan athrawes gefnogi'r awdurdod lleol yn cael effaith adeiladol iawn ar ddatblygiad y lleoliad.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r lleoliad wedi ei staffio'n briodol i addysgu pob agwedd ar y cwricwlwm a defnyddir y staff yn effeithiol. Caiff adnoddau eu rheoli'n dda a'u diweddaru'n rheolaidd i gyfarfod â datblygiadau newydd ac anghenion cyfredol y plant.

Mae gan yr arweinydd ddealltwriaeth drylwyr o gyllideb y lleoliad. Mae hi'n blaenoriaethu gwariant yn dda yn unol â'r anghenion datblygu. Caiff penderfyniadau ariannol eu harfarnu'n ofalus i wneud yn siŵr eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a chynnydd a lles y plant. Mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Nid oes unrhyw sylw ar holiaduron y rhieni oherwydd y nifer bychan o ymatebion a ddaeth i law.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Dywed plant eu bod yn hapus yn y lleoliad a'u bod yn hyderus i droi at unrhyw oedolyn i ofyn am gyngor neu arweiniad.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Wil Williams | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o’r adroddiad**

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |